ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	2 Mawrth 2022
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
SWYDDOG CYSWLLT:	Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd licensing@denbighshire.gov.uk 01824 706066
TESTUN:	Newidiadau Arfaethedig i Dabl Ffioedd a Thaliadau Cerbydau Hacni

1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Adolygu ffioedd y tariff presennol ar gyfer cerbydau hacni (tacsis).

2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Yn dilyn cais gan nifer o yrwyr tacsi trwyddedig i adolygu ffioedd y tariff presennol, mae swyddogion wedi drafftio cynigion ar gyfer ymgynghori pellach.

3.0 PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae Adran 65 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ("y Ddeddf") yn caniatáu i'r Cyngor osod y cyfraddau neu'r ffioedd o fewn y sir mewn perthynas â llogi cerbyd.

4.2 Cafodd dau ddewis eu cyflwyno gan yrwyr trwyddedig sef:

- Cynnig 1
  - cynyddu i ddechrau ar 3.50 a 2.50 y filltir
  - Tariff 2 i ddechrau am 11pm tan 7am
- Cynnig 2
  - Dechrau ar £3.50 gyda £2.50 y filltir a dileu'r £3 cychwynnol ar y ¾ milltir cyntaf.
  - tâl ychwanegol fesul teithiwr am deithiau gyda mwy na 4 teithiwr.
  - Tariff 1 i ddechrau am 0700 a gorffen am 2259 a Thariff 2 i ddechrau am 2300 a gorffen am 0659
  - Tariff 2 fydd ar ddyddiau Sul drwy'r dydd yn barhaol.

4.3 Ychwanegiad i Gynnig 2 uchod sydd wedi ei gyflwyno gan yrrwr arall yw y dylai Tariff 2 ddechrau am 6pm ar nos Wener a nos Sadwrn er mwyn annog gyrwyr digonol i ddiwallu galw'r cwsmeriaid.

4.4 Mae'r tariff presennol ar gyfer Sir Ddinbych wedi ei atodi fel Atodiad A ac mae'r newidiadau hynny a gaiff eu cynnig wedi eu hamlygu.

5.0 YSTYRIAETHAU

5.1 Cafodd y "tabl prisiau" ei newid ddiwethaf yn 2018.

5.2 Mae'r ffioedd am bellter yn cael eu defnyddio i lunio "tabl cynghrair" o brisiau tacsi drwy'r DU, a gaiff ei lunio gan bapur newydd y 'Private Hire and Taxi Monthly'. Yn seiliedig ar ffioedd presennol mae Sir Ddinbych wedi ei rhestru fel rhif 259 o'r cyfanswm o 359 o Awdurdodau Lleol ar draws y DU; 12 o'r 22 yng Nghymru a 5 o'r 6 yng ngogledd Cymru (Rhagfyr 2021). Mae'n bosibl y bydd Aelodau'n dymuno nodi y byddai'r cynnig hwn yn mynd â Sir Ddinbych i'r 5^{ed} uchaf yng Nghymru ac yn ail ar y cyd â Gwynedd yng ngogledd Cymru.

5.3 Mae cymariaethau wedi eu seilio ar deithiau dwy filltir ar y tariff normal ac nid yw'n ystyried unrhyw ychwanegiadau. Safle "1" yw'r drutaf.

5.4 Mae'r cynigion yn arwain at gynnydd o 7% mewn ffioedd am daith dwy filltir.

5.5 Pe byddai Aelodau yn penderfynu cefnogi'r cynigion a symud i ymgynghoriad, mae swyddogion yn cynnig ymgynghori'n gyhoeddus gan hysbysu gyrwyr trwyddedig yn uniongyrchol o'r cynigion.

5.6 Bydd unrhyw wrthwynebiadau ar y cam hwnnw yn cael eu dwyn yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer ystyried tariff terfynol.

5.7 Os nad oes yna unrhyw wrthwynebiadau, mae'n rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi hysbysiad cyhoeddus mewn un papur newydd lleol a ddosberthir yn y Sir a ddylai roi manylion am y tariff newydd arfaethedig a nodi cyfnod, na fydd yn llai nag 14 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, lle gellir gwneud gwrthwynebiad yn ysgrifenedig i'r Awdurdod. Dylai Aelodau nodi fod angen Penderfyniad Dirprwyedig Aelod Arweiniol ar gyfer y cam gweithredu hwn i sicrhau fod y Cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau cyfansoddiadol.

5.8 Os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau ar y cam hwnnw fe fydd graddfa ddiwygiedig y ffioedd a thaliadau yn dod i rym ar ôl i'r hysbysiad cyhoeddus ddod i ben h.y. y 15fed diwrnod.

5.9 Bydd unrhyw wrthwynebiadau ar y cam hwnnw yn cael eu dwyn yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer ystyried tariff terfynol.

5.10 Dylai Aelodau nodi er bod y Cyngor yn gosod y tabl ffioedd gall perchennog cerbydau hacni godi llai o ffi ar gwsmer; y ffi a osodwyd yw'r swm mwyaf a ganiateir.

5.11 Fe all Aelodau gynnig tariff gwahanol a ffafrir neu wrthod y sylwadau i ddiwygio'r tariff.

6.0 ARGYMHELLIAD

6.1 Bod yr Aelodau yn:

- awdurdodi swyddogion i fynd ymlaen gydag ymgynghoriad ar un ai
  - Cynnig 2 ym mharagraff 4.2, yn ogystal â'r ychwanegiad ym mharagraff 4.3, neu
  - Fersiwn a ffafrir o dariff y cytunwyd arno gan Aelodau
- rhoi cyfarwyddyd i swyddogion i baratoi adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu nesaf os oes unrhyw wrthwynebiadau yn cael eu derbyn
- rhoi cyfarwyddyd i swyddogion i gyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus angenrheidiol os na dderbynnir gwrthwynebiadau i'r ymgynghoriad a gosod y tariff wedi'r terfynau amser statudol os na chyflwynir unrhyw wrthwynebiadau pellach wedi hynny.
- rhoi cyfarwyddyd i swyddogion i baratoi adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu nesaf os oes unrhyw wrthwynebiadau yn cael eu derbyn yn dilyn yr hysbysiad statudol.